**Gwybodaeth i Gleifion**

**Pwyth Cerfigol**

**Gwasanaethau Mamolaeth**

---

## Pwyth Cerfigol

Mae'r daflen wybodaeth hon yn egluro beth yw pwyth cerfigol a'r hyn y dylech ei ddisgwyl os byddwch chi'n dewis cael un.

## Beth yw Pwyth Cerfigol?

Pwyth na ellir ei amsugno sy'n cael ei roi o gwmpas ceg eich croth (gwddf y groth) i'w ddal ynghau drwy gydol beichiogrwydd yw pwyth cerfigol. Gellir ei alw hefyd yn 'Bwyth Shirodkar' neu'n 'Bwyth MacDonald'.

## Beth yw manteision gosod pwyth i mewn?

Gall pwyth helpu i leihau'r risg o erthyliad naturiol hwyr.
Bydd eich ymgynghorydd yn trafod eich amgylchiadau personol gyda chi a pham mai hon yw'r ffordd orau i chi

## Beth mae'r driniaeth yn golygu?

Bydd yn rhaid i chi ddod i mewn i'r ysbyty a bydd y driniaeth yn cael ei chynnal yn y theatr. Bydd yr anaesthetydd yn trafod eich iechyd a'ch amgylchiadau personol gyda chi. Mae'n bosibl y bydd yn eich cynghori i gael anaestheteg gyffredinol (bydd hyn yn golygu eich rhoi i gysgu). Weithiau bydd y driniaeth yn cael ei chynnal o dan anaestheteg asgwrn cefn (bydd hyn yn golygu na fydd gennych deimlad o'ch canol i lawr ond byddwch yn effro).

## Pryd bydd y pwyth yn cael ei osod i mewn?

Fel arfer, cynhelir y llawdriniaeth rhwng wythnos 13 ac wythnos 18 o'ch beichiogrwydd. Mae'n bosibl y bydd angen pwyth cerfigol yn hwyrach na hyn ond fel arfer, bydd yn cael ei chynnal cyn 24 wythnos.

**Sut bydda i'n teimlo wedyn?**
Os byddwch chi'n cael anaestheteg asgwrn cefn, ni fydd gennych deimlad o'ch canol i lawr am ychydig oriau. Bydd hyn yn cyfyngu ar eich symudiadau. Os byddwch chi'n cael anaestheteg gyffredinol, byddwch chi'n teimlo'n swrth am ychydig oriau wedyn.

**Beth yw'r cyfraddau llwyddiant?**
Mae'r cyfraddau llwyddiant yn dda, yn arbennig pan fydd y pwyth wedi'i osod yn gynnar yn ystod y beichiogrwydd am reswm cydnabyddedig. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae tua 2/3 o'r merched yn cyrraedd dyddiad y geni.

**Beth yw'r risgiau?**
Y prif risg yw y gall y driniaeth achosi erthyliad naturiol. Mae'r risg hwn yn fychan. Fodd bynnag, mae'n anodd weithiau penderfynu a ydy unrhyw erthyliad naturiol wedi'i achosi gan y pwyth neu'r rheswm dros osod y pwyth yn y lle cyntaf.

Y risgiau eraill yw - risgiau cael anaestheteg, risg o waedu, haint a thrombosis (fel gydag unrhyw driniaeth lawfeddygol).

**Beth arall gellir ei wneud?**
Nid oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud; fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch chi'n dewis peidio â chael y driniaeth.

**Am ba hyd fydda i'n aros yn yr ysbyty?**
Mae'r mwyafrif o ferched yn mynd adref ar yr un diwrnod; fodd bynnag, dylech chi fod yn barod i aros dros nos. Mae'n bosibl y byddai'n syniad da dod â'ch dillad nos a'ch pethau ymolchi gyda chi.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi fynd adref?**
Mae'n bosibl y byddwch chi'n gwaedu ychydig o'r fagina ond dylai hyn beidio o fewn ychydig ddyddiau. Os byddwch chi'n gwaedu'n drwm, neu'n cael poen neu redlif, dylech gysylltu â'r Meddyg Teulu (MT).

Dylech orffwys ar ôl mynd adref ac osgoi unrhyw waith tŷ trwm, codi neu ymarfer. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi aros gartref o'r gwaith am gyfnod byr; bydd eich ymgynghorydd yn eich cynghori am hyn.

Mae'n well peidio â chael cyfathrach rywiol am 2 wythnos. Bydd eich ymgynghorydd yn egluro os bydd yn rhaid i chi beidio am gyfnod hirach.

**Sut ofal fydda i'n ei gael yn ystod fy meichiogrwydd?**
Yn ôl yr angen, byddwch chi'n cael eich gweld yn rheolaidd yn ystod eich beichiogrwydd yn y clinig cyn-geni.

**Pryd byddan nhw'n tynnu'r pwyth?**
Bydd y pwyth yn cael ei dynnu tua diwedd eich beichiogrwydd i ganiatáu genedigaeth normal. Bydd hyn yn cael ei wneud pan fyddwch chi tua 36 wythnos. Os bydd eich dŵr yn torri neu eich bod yn dechrau esgor cyn 36 wythnos, dylech ffonio'r uned Brysbennu Obstetreg yn Ysbyty Nevill Hall ar 01873 732139 neu Ysbyty Brenhinol Gwent ar 01633 238164 ar unwaith a rhoi gwybod i'r staff.
Bydd yn rhaid i chi ddod i mewn i'r ysbyty gan ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid tynnu'r pwyth.

Mae tynnu'r pwyth yn broses syml ac nid oes angen anaestheteg fel arfer.

Mae'n bosibl hefyd y byddwch chi'n teimlo'n sâl ond gallwch gael meddyginiaeth at hyn. Mae'n bosibl y byddwch ychydig yn anghyfforddus tebyg i boen misglwyf. Bydd y staff yn rhoi poen laddwyr i chi os bydd angen.

**Rhifau Cyswllt**

**Rhifau Ffôn Brysbennu Obstetreg**

Ysbyty Brenhinol Gwent - 01633 23 8164

Ysbyty Nevill Hall - 01873 73 2139

**"This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**